ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	14eg RHAGFYR 2022
TEITL YR ADRODDIAD:	HYFFORDDIANT AELODAU ETHOLEDIG
ADRODDIAD GAN:	RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL
SWYDDOG CYSWLLT:	MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512)
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I ROI DIWEDDARIAD O RAGLEN HYFFORDDIANT A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG YN DILYN YR ETHOLIAD MIS MAI 2022

1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad yma ydi rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau o'r sesiynau Hyfforddiant a Datblygu sydd wedi ei cynnig a'i derbyn gan Aelodau Etholedig ers Mai 2022.

Mae'r adroddiad hefyd yn ymateb i'r cais gweithredu amlygwyd yn dilyn yr adroddiad gyflwynwyd l'r Pwyllgor Safonau mis Mehefin 2022.

2. Y CYNLLUN

Rhwng 11eg o Fai a'r 12fed o Ragfyr, mae 47 diwrnod o hyfforddiant wedi ei gynnig gan y Tim Datblygu Adnoddau Dynol, i Aelodau Etholedig. Mae'r hyfforddiant yn ymdrin â ystod eang o feysydd, rhai yn ymwneud â rhai Aelodau Pwyllgorau penodol e.e. Cynllunio; Awdit yn ogystal a chynnig sesiynau cyffredinol megis sgiliau TG.

Mae cyrsiau yn ymwneud a sgiliau cyffredinol Cadeirio wedi ei cynnig (ac hefyd ar gael fel modiwl e-ddysgu) a bu sesiwn Cadeirio ar gyfer Cadeiryddion/Is-Gadeiryddion Craffu gael ei gynnig yn ddiweddar gyda 8 Aelod Etholedig yn mynychu.

Yn nhermau mynychiant sesiynau, mae hyn wedi bod yn amrywiol.

Mewn perthynas a'r cyrsiau tybir fod yn fandadol, mae'r lefelau mynychu fel a nodir isod:

- Côd Ymddygiad x29

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth x24
- Egwyddorion Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) x12
- Diogelwch Seibr x35

3. CYFATHREBIADAU

Yn nhermau cyfathrebiadau, ac fel dilyniant i'r cynllun hyfforddiant cychwynol gyhoeddwyd, mae Bwletinau Aelodau Etholedig wedi cael ei cyhoeddi a'i cylchrhedeg, gyda'r bwriad o hyrwyddo hyfforddiant sydd wedi ei drefnu.

Mae fersiynau electronic o'r bwletinau ar gael o fewn Dashfwrdd Aelodau Etholedig (lansiwyd mis Gorffennaf) ac sydd ar gael ar Platform E-Ddysgu'r Awdurdod, Learning Pool. Yma, mae gan Aelodau Etholedig hefyd yn cael mynediad i wybodaeth yn ymwneud â Iechyd & Llesiant; modiwlau cyffredinol, yn ogystal a modiwlau sy'n benodol ar gyfer ei rolau.

Mae'r data'n dangos fod 16 Aelod wedi mynd i'r safle hyd yma.

Yn ogystal a'r uchod, mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn cael ei rhannu drwy ebyst/apwyntiadau.

4. FFURF TROSGLWYDDO

Mae trosglwyddo sesiynau hyfforddiant yn parhau i gymeryd lle drwy gyfryngau fel MSTeams/Zoom yn ogystal a defnyddio adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar blatfform E-Ddysgu'r Awdurdod, Learning Pool, sy'n galluogi mynediad ar unrhyw amser.

Mae amseriad sesiynau'n cael ei adolygu'n barhaus yn ystyr pryd ma'r sesiynau'n cael ei cynnal e.e. yn ystod y dydd/hwyr p'nawn/gynnar gyda'r hwyr, fel fod ymrwymiadau gwaith/gofal yn cael ei cymeryd I ystyriaeth ac er mwyn uchafu'r niferoedd yn mynychu. Lle bynnag yn bosibl ac yn ymarferol, bydd y Tim Datblygu yn ceisio cynnig opsiynau o ddyddiadau/amseroedd.

5. I GRYNHOI

Tra fod Hyfforddiant wedi lleddfu rhywfaint ers y misoedd cychwynol, mae hyfforddiant pellach fel yr adnabuwyd yn y cynllun cychwynnol e.e. Iechyd, Dioglewch & Llesiant yn cael ei gynnig yn y Flwyddyn Newydd.

Yn naturiol, bydd y cynllun yn parhau i gael ei adolygu a'i addasu wrth dderbyn mewnbwn pellach gan rhanddeiliaid fydd yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion hyfforddiant a'i gyflwyno'n amserol.

6. ARGYMHELLIAD

- I nodi cynnwys yr adroddiad

Miriam Williams
Rheolwr Hyfforddiant AD
Rhagfyr 2022